

CYNGOR BRO LLANGELER – 28-01-2019

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Ionawr 28ain 2019 yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **10/19 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. John Crossley, Cynghorwyr: Jamie Ayres, Delyth Evans, Aled Eynon, Richard Evans, Ken Howell, Brenda Jones, Christopher Jones, Marc Rees, Dilwyn Smith, Adrian Thomas, John Wigley. Clerc – Stella Jones
HEFYD YN BRESENNOL: Cyfieithydd, Aelodau o'r cyhoedd.
2. **01/19 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Nesta Jones.
3. **01/19 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Materion yn Codi – 6.6i.03/18 Cyng. K Howell, D Smith, M Rees
6.11.4.10/18 Cyng A Thomas
6.i..06/18 Cyng D Evans
4. **01/19 HEDDLU:** PCSO J Kedward a PC Awen Thomas – dosbarthwyd posteri am cyffuriau a dwedwyd bod Bws Cyffuriau yn mynd i fod yng Nghastellnewydd Emlyn ddydd Sadwrn 2ail o Chwefror 2019 rhwng 11yb a 3yp
5. **01/19 COFNODION:** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Tachwedd 26ain 2019 yn Neuadd y Ddraig Goch, Cynigydd – Cyng. A Thomas
Eilydd – Cyng. D Evans
6. **01/19 MATERION YN CODI :**
12.i.01/14. b)Audio Trail – dwedodd Cyng. J Ayres ei fod yn disgwyl pris oddi wrth Gwasg Gomer
6.i. Pwyllgor y Parc – un gwelliant i wneud eto i'r les cyn ei fod yn barod i'w arwyddo.
7.xv.05/16 Caeau Canmlwyddiant – rhai o'r cynghorwyr i fynd i weld y safle ac i weld pa waith sydd eisiau gwneud i wal y Parc cyn medru gosod plac.
10.11.07/16. Toiledau Parc Puw – paent a'r brwsys wedi dod, eisiau sicrhau bod y gwaith atgyweirio roedd y Cyngor Sir i wneud cyn cymryd y toiledau drosodd wedi ei wneud.
10.i.09/16 Parc Pentrecwrt – bydd y les yn cael ei pharatoi unwaith bydd y les arall wedi ei chwblhau.
10.i.06/17 Tir Temple – dwedodd Cyng. K Howell nad oedd wedi clywed dim ymhellach oddi wrth y Cyngor Sir. Dwedodd y Clerc bod deiliaid Temple wedi arwyddo na fyddent yn codi'r ffens pan bydd y Cyngor yn ffensio'r tir.
10.ii.10/18 Clawdd Ffin Cae Parc Puw – y cyngor wedi trefnu i'r porfa cael ei glirio a'r gwaith wedi'i wneud. Dwedwyd bod Mr Brynmor Williams wedi gosod ffens – cytunwyd dylid anfon llythyr iddo yn dweud taw ei gyfrifoldeb e fydd y ffens.
10.iii.Pentref Diwylliant 2019 – bu noson y lawnsio yn Neuadd y Ddraig Goch yn llwyddiannus.
11.4.10/18 Arian Difrod Llifogydd – sieciau wedi ei ddosbarthu i'r deiliaid
11.i.02/18 Prosiectau y dyfodol – Arwyddion Llwybrau Gŵlan – Clerc i gysylltu a Mr Malcolm James yr adeiladwr ynghylch cael pris i osod llechu ar y llawr o flaen yr hysbysfwrdd.
7. **01/19 GOHEBIAETH:**
 - i. Eleri Thomas – les drafft
 - ii. ebost – ULIC –Bwletin Newyddion Rhagfyr 2018 - cylchlythyrwyd
 - iii. ebost – Ymgynghoriad Cyllideb 2019 - 2022 – cylchlythyrwyd
 - iv. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 26.11.18 - 30.11.18 – cylchlythyrwyd
 - v. ebost – Rhodri Edwards – Caeau Canmlwyddiant
 - vi. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 03.12.18 - 07.12.18 – cylchlythyrwyd
 - vii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 10.12.18 - 14.12.18 – cylchlythyrwyd
 - viii. ebost – CSG – Apêl Nadolig – cylchlythyrwyd
 - ix. ebost – CSG – Amnest Gwastraff a Theiars Castellnewydd Emlyn 16/2/19 rhwng 8yb-12o'r gloch – cylchlythyrwyd
 - x. ebost – Cylchlythyr Tachwedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
 - xi. ebost – CSG – Cyllid 2019-2022 – cylchlythyrwyd
 - xii. ebost – CSG – Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018 - 2033 – cylchlythyrwyd
 - xiii. ebost – Cylchlythyr diweddaraf Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dafydd Llywelyn – cylchlythyrwyd
 - xiv. ebost – CSG – cau ffordd dros dro – U5470 Saron, Llandysul – cylchlythyrwyd
 - xv ebost – CSG - cau ffordd dros dro – C1296, Temple Cottage, Drefach Felindre, Llandysul – cylchlythyrwyd
 - xvi.ebost – CSG – Rhagolygon o ran Cyllideb Refeniw – cylchlythyrwyd
 - xvii.ebost– CSG – Rheoliadau awdurdodau lleol (cyfrif sail treth y cyngor) (Cymru) 1995 – cylchlythyrwyd
 - xviii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 17.12.2018 - 21.12.2018 – cylchlythyrwyd
 - xix. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 24.12.18 - 28.12.18 – cylchlythyrwyd
 - xx. ebost – Age Cymru Sir Gâr – arbed ynni a lleihau costau – cylchlythyrwyd
 - xxi. ebost – ULIC – Bwletin Newyddion Blwyddyn Newydd 2019 – cylchlythyrwyd
 - xxii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 31.12.18 - 04.01.19 – cylchlythyrwyd
 - xxiii. ebost – W/ENF/08826 - Ffynnonwen, Velindre., Llandysul
 - xxiv. ebost – W/ENF/08035 – Ffynnonbedw fach, Cwmpengraig
 - xxv. ebost - Cylchlythyr Arbenning y Comisiynydd Pobl Hyn Cymru

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

- xxvi. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 07.01.2019 - 11.01.2019 – *cylchlythyrwyd*
- xxvii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 14.01.18 - 18.01.18 – *cylchlythyrwyd*
- xxviii. ebost – ULIC – Cylchlythyr Comisiynydd Heddlu a Throsedd – *cylchlythyrwyd*
- xxix. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 21.01.19 - 25.01.19 – *cylchlythyrwyd*
- xxx. ebost – Carmarthenshire Meadows Group – cyfarfod y Gwanwyn 23/03/2019 Neuadd y Ddraig Goch – *cylchlythyrwyd*
- xxxi. ebost - CSG - Galwad am Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr – *cylchlythyrwyd*
- xxxii. Western Power Distribution – Tystysgrif o Gyflenwad Difetr – *yn dangos y newid i'r llwyth ar y wifren.*
- xxxiii. ebost – Ymgynghoriad Ailgylchu – *cylchlythyrwyd*
- xxxiv. ebost – Gwobr Dathlu Diwylliant 2019 – *cylchlythyrwyd a nodwyd*

8. 01/19 CYNLLUNIO

Cais Ymgynghori llaw

W/36131 - 13.12.2018 Cyfarfod Pwyllgor safle yn Bwlchychdomen – *wedi cael caniatâd*

W/38111 – Alban, Felindre – newid hanner y garej dwbl bresennol i ystafell – *dim gwrthwynebiad*

Temple cais ôl-syllol – Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir gan nad oedd y Cyngor Bro wedi cael unrhyw wybodaeth am y cais yma ac angen gwrthwynebu'r cais.

9. 01/19 MATERION ARIANNOL

Praesept – cyflwynodd y Clerc rhagamcaniad o'r gyllideb ar gyfer 2019/20, yn dilyn trafodaeth cytunwyd codi'r praesept gan 1%

a. Anfonebau

- i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 28/01/2019*£heb gael anfoneb*
- ii .HIRIO NEUADD Y DDRAIG GOCH – cyfarfod 28/01/19 £10.50
[caniatâd wedi ei dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn]
- iii. HUW EVANS£240.00

Arian yn y Banc ar 31/12/18£27,949.47

b. S/O

Cyflog y Clerc£550.00

c. Credid

Praesept£10,433.40

10. 01/19 MATERION ANGEN TRAFODAETH

- i. Dadorchuddio Plac Caeau Canmlwyddiant – cytunwyd dylai'r plac gael ei roi ar wal y Parc

11. 01/19 SYLWADAU'R CYNGHORWYR

1. Cyng B Jones – golau ar Sgwâr y Gât ddim yn gweithio
2. Cyng D Evans – coeden ar waelod rhiw Aberlleinau, Pentrecagal yn hongian yn beryglus dros yr hewl
3. Cyng M Rees – cyflwr hewl o'r pentref i Penboyr yn wael – ddwedodd y Clerc bod y Cyngor Sir yn dweud nad oedd ddigon gwael i gael ei gwneud, bu rhai o staff y cyngor allan yn llanw tyllau heddiw ddwedodd Cyng K Howell
4. Cyng J Wigley – i. cyflwr wyneb y ffordd yng nghylchfan Pont Tyweli yn wael
ii. awgrymu bod eisiau euro a thrwsio bedd Johnnie Lewis, Cambrian
5. Cyng R Evans – blwch postio yn Llwynceilyn, Saron – awgrym i gael blwch postio ar safle Trewern.

12. 01/19 CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod Misol nesaf yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul nos Lun Chwefror 25ain 2019 am 7.30 yh.

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.00yh

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

